

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Rhwydwaith Arddangos
Ymdrin ag ymwrthedd
anthelmintig

Prosiect Porfa Cymru
Mwy o ffermydd a mwy o
gyfraddau tyfu yn 2021



Safle Arddangos: Nantglas, Talog, Sir Gaerfyrddin

Swyddog Technegol: Gwenan Evans

Teitl y Prosiect: Cynyddu llaeth o borthiant

Cyflwyniad i'r Prosiect:

Glaswellt sy'n cael ei bori yw'r porthiant rhataf sydd ar gael ar y rhan fwyaf o ffermydd llaeth yng Nghymru ac mae'n darparu dros hanner y deunydd sych y mae'r rhan fwyaf o fuchod llaeth yn ei fwyta. Hoffai Iwan Francis, sy'n ffermio Nantglas, wella'r defnydd o laswellt, naill ai o borthiant wedi ei gadw neu laswellt sy'n cael ei bori. Nod y prosiect yw gwella cyfanswm y cynnyrch o borthiant wedi ei gadw a glaswellt wedi ei bori gan y fuches o 200 o fuchod math Seland Newydd sy'n lloea mewn blociau. Y nod yw canolbwyntio ar newidiadau bach wrth reoli porfa a hel

silwair i roi hwb i'r cynnyrch llaeth heb yr angen i gynyddu dwysfwd. Oherwydd y pridd trwm, mawnog yn Nantglas, mae'r tyfiant glaswellt yn y gaeaf yn gyfyngedig ac felly mae'n allweddol sicrhau bod y rownd olaf o bori yn gadael rhywfaint yn barod at droi allan yn niwedd Mawrth. Gall gofynion maetholion buwch odro gael eu cyflenwi trwy silwair o ansawdd, a fydd yn lleihau costau cynhyrchu llaeth trwy ostwng faint o ddwysfwd a ddefnyddir a chynnal rwmen iachach a lleihau'r potensial ar gyfer afiechydon metabolig. Ar gyfartaledd, collir 5-18% o ddenuydd sych yn ystod y cyfnod resbiradu ac eplesu wrth wneud silwair, a bydd Dave Davies o Silage Solutions Ltd yn canolbwyntio ar y rhan hon o'r broses o wneud silwair yn Nantglas i wella ansawdd y silwair.



Ffigwr 1. Iwan Francis a Nigel Howells yn asesu'r llwyfan pori

Nodau ac Amcanion y Prosiect:

Cymerir samplau pridd o'r holl gaeau pori a silwair a rhoddir cyngor gan yr ymgynghorwyr am chwalu gwrtaith anorganig ac organig i wella'r defnydd o laswellt a'i ansawdd ar y fferm gyfan dros y ddwy flynedd nesaf.

Bydd Nigel Howells yn arwain ar reoli pori gyda'r nod o gynyddu cynnyrch llaeth o laswellt. Bydd yn canolbwyntio ar sut y bydd y llwyfan pori yn cael ei reoli a phwysigrwydd mesur glaswellt yn wythnosol i wneud y defnydd gorau o laswellt. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod Nantglas yn tyfu 10tDM/ha, ond mae'n bosibl tyfu mwy na 13tDM/ha yn yr ardal hon. Mae Iwan wedi bod yn defnyddio Agrinet i gofnodi a monitro tyfiant y glaswellt ar y llwyfan pori, ond bydd mwy o waith yn cael ei wneud ar y gyllideb laswellt i helpu i ddiffinio'r nodau o ran gorchudd cyfartalog yn gliriach ar gyfer yr hydref a'r gwanwyn. Bydd samplau pridd a samplau porthiant ffres yn cael eu dadansoddi o ran eu cynnwys mwynau i fonitro beth mae buchod yn ei gael a beth sydd ar gael iddyn nhw.

Bydd Dave Davies yn canolbwyntio ar wella ansawdd y silwair i gynyddu'r llaeth o'r porthiant. Ar hyn o bryd mae'r silwair ar gyfartaledd yn rhoi 39% o ddeunydd sych ac yn ystod y cynhaeaf mae'r broses gyfan yn cymryd tua 24 awr i'w chwblhau. Mae'r ffaith bod y deunydd sych yn uchel yn gwneud y silwair yn anodd i'w gywasgu ac mae'n arwain at garamleiddio. Er mwyn lleihau'r amser gwywo, bydd Iwan yn anelu at leihau'r amser torri o'r chweched

wythnos ar ôl cau'r cae i'r bumed wythnos. Bydd y samplau pridd yn dynodi unrhyw ddiffygion yn y llwyfan silwair, ond bydd samplau slyri hefyd yn cael eu cymryd ar y diwrnod chwalu i gyfrifo'r nitrogen (N) sydd ar gael yn y slyri. Y nod yw lleihau faint o wrtaith N a ddefnyddir ar y fferm, a thrwy hynny leihau costau yn ogystal ag effaith ar yr amgylchedd.


Dangosyddion Perfformiad Allweddol:

- 4,000 litr oddi ar laswellt; ar hyn o bryd yn $\approx$ 3,300 litr y fuwch
- 5,000 litr o borthiant; ar hyn o bryd yn $\approx$ 4,200 litr y fuwch
- Defnyddio 85% o'r glaswellt a dyfir



Ffigwr 2. Cae wedi ei bori mewn sribedi yn Nantglas yn ystod haf 2020

Am ragor o wybodaeth am y gwaith a gynhaliwyd ar safle arddangos Nantglas, ewch i llyw.cymru/cyswlltfermioeinfffermydd



Safle Arddangos: Cefngwilgy, Llanidloes, Powys

Swyddog Technegol: Lisa Roberts

Teitl y Prosiect: Ymdrin ag ymwrthedd anthelmintig yn Cefngwilgy

Y Diweddaraf am y Prosiect:

Mae ymwrthedd anthelmintig eisoes yn broblem mewn diadelloedd yng Nghymru. Canfu prosiect WAARD (Cymru yn Erbyn Datblygiad Ymwrthedd Anthelmintig) bod ymwrthedd i driniaeth llyngyr yn bodoli ar y rhan fwyaf o ffermydd Cymru, gyda 43% â rhyw lefel o ymwrthedd i dair; neu'r pedair triniaeth a brofwyd ar y ffermydd hynny. Mae ymdrin â'r broblem trwy gael gwybod beth yw statws yr ymwrthedd i driniaeth llyngyr a gweithredu ar hynny yn bwysig iawn ar sail unigol a lefel y diwydiant.


Mae gan ymwrthedd y potensial i leihau cynhyrchiant y stoc yn sylweddol trwy:

- leihau cyfraddau tyfu (anifeiliaid ar y fferm yn hwy)
- cynyddu'r duedd i ddioddef afiechydon eraill oherwydd bod ganddynt lai o imiwnedd
- cynyddu'r posibilrwydd o ddioddef cynrhon oherwydd ysgothi
- dyddiadau gwerthu hwyrach a all effeithio ar y pris am bob kg

Er gwaethaf hyn, mae llawer o ffermwyr yn dal ddim yn gwybod a yw eu triniaeth llyngyr yn effeithiol. Ar safle arddangos Cefngwilgy, mae'r ffermwyr Edward a Kate Jones wedi cynnal Prawf Gostwng Cyfrif Wyau Ysgarthol cynhwysfawr ar bedair triniaeth wahanol i ddynodi a oes unrhyw ymwrthedd yn bresennol. Daethpwyd o hyd i ymwrthedd lluosog, ond ar ôl profi maent yn gwybod ar ba gam y mae'r ymwrthedd ac yn gallu llunio strategaeth trin llyngyr addas gyda'u milfeddyg.

Mae datblygiad ymwrthedd yn broses lechwraidd. Yn y maes mae hyn yn golygu y bydd yn ymddangos bod triniaethau yn parhau i fod yn effeithiol yn glinigol, mewn defaid gyda baich o lyngyr; hyd yn oed os yw'r gostyngiad yn y cyfrif wyau ysgarthol yn is na 95%. Dim ond pan aiff y gostyngiad dan 80% y mae'n dechrau dod yn amlwg nad yw'r baich o lyngyr wedi cael ei reoli'n effeithiol. O ganlyniad, nid yw llawer o ffermwyr defaid yn gwybod bod ymwrthedd i'r driniaeth yn bresennol nes bydd yr ymwrthedd yn dod yn amlwg iawn.

Er mwyn osgoi i ymwrthedd anthelmintig ddatblygu, gall ffermwyr defaid weithredu'r argymhellion SCOPS sydd wedi eu bwriadu i leihau'r pwysau dethol ar y boblogaeth o lyngyr. Gellir gweld yr argymhellion ar wefan SCOPS: www.scops.org.uk



Am ragor o wybodaeth am y gwaith a gynhaliwyd ar safle arddangos Cefngwilgy, ewch i llyw.cymru/cyswlltfermioeinfffermydd

Safle Arddangos: Moelogan Fawr, Llanrwst, Conwy

Swyddog Technegol: Non Williams

Teitl y Prosiect: Defnyddio technoleg i gynyddu'r monitro ar iechyd - gwella patrwm lloea, cyfraddau cyfebu a lleihau colledion wrth loea

Y Diweddaraf am y Prosiect: Mae canfod pryd y bydd heffrod ifanc yn gofyn tarw yn anodd yn aml trwy eu gwyllo, a all arwain at batrwm lloea estynedig a chostau milfeddygol ychwanegol o ran triniaethau ffrwythlondeb a iechyd. Yn y gorffennol, defnyddiwyd system dyfeisiadau CIDR (dyfais yn y groth sy'n rhyddhau progesteron) ar Moelogan Fawr i gael yr heffrod i ofyn tarw yr un pryd.

Mae'r bolws smaXtec yn rhoi gwybodaeth gyson o dymheredd corff a lefelau symud y fuwch. Gall hyn helpu wrth asesu statws iechyd y fuches a chanfod y rhai sy'n gofyn tarw. Nod cyflwyno bolysau smaXtec ar fuches sugno Moelogan Fawr oedd i:


1. Leihau'r mewnbwn llafur trwy ddefnyddio technoleg i wella'r modd o ganfod buchod sy'n gofyn tarw
2. Cynyddu effeithlonrwydd y fuches trwy dynhau'r patrwm lloea

Derbyniodd 39 o heffrod Stabiliser folws smaXtec (Mawrth 2020). Dadansoddwyd y canlyniadau sganio a'u cysylltu â'r data o'r bolysau, yn ogystal ag arsylwi arnynt.

Roedd 95% o'r heffrod yn gyflo, gyda 72% o'r rheiny yn gyflo ar ôl y tarw potel cyntaf. Mae'r cyfraddau cyfloi ar ôl y tarw potel cyntaf wedi cynyddu o 10% ar ôl rhoi'r bolysau (Ffigur 1). Mae'r ffigwr hwn yn

Am ragor o wybodaeth a dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r prosiect ym Moelogan Fawr, ewch i llyw.cymru/cyswlltfermioeinfffermydd

uwch nag un o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y prosiect o gynyddu'r ganran o heffrod sy'n cyfloi'r tro cyntaf o 57% i >65%.




Ffigur 1. Cyfraddau cyfloi ar ôl y tarw potel (AI) cyntaf (cyn cael bolysau ac wedyn).

Mae'r canlyniadau eraill yn cynnwys:

- Cyfatebiaeth rhwng y bolws ac arsylwadau heffrod yn gofyn tarw mewn 79% o achosion
- Canfod gofyn tarw trwy'r bolws mewn 79% o'r heffrod
- Roedd y bolysau yn rhoi arwydd cynnar o'r heffrod nad oeddynt yn cylchu, gan ganiatáu myrraeth brydlon gan y milfeddyg pan oedd yn ofynnol (26%)

Camau nesaf

Bydd y bolysau yn anfon rhybuddion lloea at y ffermwyr arddangos, Llion a Siân. Bydd y data yma yn cael ei ddadansoddi ynghyd ag arsylwadau gweledol wrth loea a mesuriadau pelfis a wnaed gan y milfeddyg, Dr Iwan Parry, i fesur y graddau yr oedd perthynas rhwng y ffactorau hyn (os o gwbl).





Pedwar arbenigwr pori yn ymuno â Phrosiect Porfa Cymru at 2021

Mae gan Gymru fantais gystadleuol anferth yn ei gallu i dyfu llawer iawn o laswellt o safon uchel yn ddibynadwy. Pan gaiff ei reoli'n iawn mae glaswellt sy'n cael ei bori yn rhoi bwyd o werth uchel i anifeiliaid, yn lleihau'r defnydd o wrtaith nitrogen, gall storio carbon yn y pridd ac mae cysylltiad rhyngddo â mwy o elw ar y fferm.

Nod Prosiect Porfa Cymru yw rhoi gwybodaeth a chynghor rheoli yn seiliedig ar dueddiadau tyfiant glaswellt rhanbarthol, sydd wedi cael eu cofnodi yn ofalus gan ein ffermwyr ymroddedig sy'n rhan o'r prosiect. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwella eich rheolaeth ar bori **OND** nad ydych yn mesur glaswellt ar hyn o bryd, mae'r prosiect hwn i chi!

Bydd y wybodaeth yn eich helpu i wneud penderfyniadau rheoli glaswelltir amserol ar y fferm fel:

- A ddylwn i droi fy anifeiliaid allan?
- A ddylwn i gau caeau i dyfu silwair?
- A ddylwn i ychwanegu porthiant ychwanegol?
- A ddylwn i chwalu gwrtaith yr wythnos hon?
- A ddylwn i ddiddynfy fy ŵyn?

Dangosodd ymchwil bod ffermwyr sy'n rheoli glaswellt yn dda yn fwy gwydn i ddigwyddiadau tywydd ac yn fwy proffidiol yn gyson.

MWY O FFERMYDD A MWY O GYFRADDAU TYFU YN 2021!

Ar gyfer 2021, rydym wedi cynyddu'r nifer o ffermydd i 49. Mae amrywiaeth o systemau, mathau o dir a lefelau profiad y ffermydd a'r ffermwyr lle byddant i gyd yn mesur tyfiant eu glaswellt bob 7-14 diwrnod o fis Mawrth i fis Tachwedd.


LANSIO'R PROSIECT: Cyhoeddwyd y set gyntaf o nodiadau rheoli ar 11 Mawrth ar wefan Cyswllt Ffermio llyw.cymru/cyswlltffermio

Eleni mae gennym:

Y nifer o ffermwyr bïff a defaid: **29**

Y nifer o ffermwyr llaeth: **20**

Os gwelwch chi fferm yn yr un ardal â chi, cadwch olwg ar dyfiant y glaswellt, gan ei bod yn debygol bod tuedd debyg o ran tyfiant yn digwydd ar eich fferm chi! Bydd hyn yn helpu i gefnogi penderfyniadau rheoli rhagweithiol ar eich fferm.



Ffermwyr arbenigol ar laswellt

Yn newydd ar gyfer 2021, mae gennym bedwar o arbenigwr pori!

Dewiswyd y pedwar ffermwr yma ar sail eu sgiliau rheoli glaswelltir rhagorol a'u gwybodaeth i roi dealltwriaeth o'u system a'r modd y maent yn gwneud penderfyniadau prydlon trwy'r flwyddyn.



Ianto Pari
Ffermwr bïff a defaid
Gwynedd



Rhys Williams
Ffermwr llaeth
Gwynedd



Andrew Giles
Ffermwr llaeth
Powys



Bleddyn Davies
Ffermwr defaid
Ceredigion

Cadwch lygad ar gyfryngau cymdeithasol Cyswllt Ffermio a'r wefan i sicrhau na fyddwch yn eu colli trwy gydol y tymor! Chwiliwch ar-lein am **#ProsiectporfaCymru**

Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Mae'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (KE Hub) wedi ei lleoli yn IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ein cydweithwyr yno yn chwarae rôl bwysig wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ymchwil wyddonol i ffermwyr a choedwigwyr.

Y rhaniad digidol ac amaethyddiaeth


Dr David Cutress o Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio sydd yn amlygu pam bod cysylltiad rhyngrwyd yn gynyddol bwysig yn y sector amaeth a'r dewisiadau gwahanol sy'n cael eu harchwilio ar rwydwaith arddangos Cyswllt Ffermio.

Er bod cynlluniau yn y Deyrnas Unedig wedi gwthio tuag at ddarparu mynediad i'r rhyngrwyd (ar rhyw ffurf neu'i gilydd) i'r holl unigolion, mewn sawl achos, mae rhaniad clir rhwng mynediad gwledig ac heb fod yn wledig yn parhau. Mewn rhai enghreifftiau, mae hyn yn syml oherwydd cyflymder trosglwyddo data arafach mewn ardaloedd gwledig, ond, mae'r ffigyrau'n awgrymu bod tua 1.1 miliwn o aelwydydd heb fynediad i'r rhyngrwyd o gwbl. Felly pam bod hyn yn broblem i amaethyddiaeth?

Mae amaethyddiaeth yn sector sy'n symud yn gynyddol tuag at fwy o ddigideiddio. Mae anogaeth i ffurflenni ffermydd a'r gwaith papur gael eu defnyddio ar-lein ochr yn ochr â chynghor amaethyddol a dogfennau deddfwriaethol. Yn ychwanegol, mae'r oes bresennol o "Agri 4.0" yn ein symud tuag at ddyfeisiadau sy'n gweithio ar y rhyngrwyd ar ein ffermydd, ar ein cerbydau fferm ac ar ein ffonau i wella effeithlonrwydd. Heb sôn am yr hyn y mae dewisiadau ar-lein wedi eu cynnig yn ystod y pandemig COVID, lle mae llawer o arwerthiannau stoc a chynnyrch wedi bod yn fwy dibynnol ar lwyfannau ar-lein i osgoi cyswllt agos. Mae hyn yn cynyddu'r duedd y sylwyd ami o werthu 'blychau bwyd ffres o'r fferm' ar-lein a chynlluniau gwerthu yn uniongyrchol i'r cwsmer. Boed ni'n hoff o'r peth neu beidio, digideiddio yw'r duedd bresennol ar gyfer y sector, ac er mwyn cael troedle gyfartal, mae ar ranbarthau gwledig angen gwell isadeiledd. Heb ystyriaethau o'r fath fe allem ni weld rhannau heb rwydwaith yn cael trafferth i gadw'n gyfredol â datblygiadau cynhyrchiant technolegol sydd ar gael i eraill, gan gau rhanbarthau cyfan allan o ffermio sy'n ddichonol yn economaidd.

Un maes a allai weithredu fel dewis gwahanol addawol i fand eang gyda gwifren/optegol a data symudol yw defnyddio 'Rhwydweithiau Ardal Eang' (WAN) penodol. Er mai dim ond trosglwyddo ychydig o ddata y mae'r rhan fwyaf o'r technolegau hyn, maent yn gweithredu dros ardaloedd llawer ehangach. Gallai buddsoddiad strategol mewn systemau o'r fath helpu i bontio ardaloedd nad ydynt yn gallu cysylltu a chael eu defnyddio, nid yn unig gan amaethyddiaeth, ond hefyd gan gynghorau lleol a gwasanaethau argyfwng i wella'r ddarpariaeth yn gyffredinol. Mae Cyswllt Ffermio yn ymwneud yn uniongyrchol â phrosiectau i dreialu sefydlu a rhedeg rhwydweithiau o'r fath trwy Gymru a gellir cael mwy o wybodaeth am y prosiectau rhwydwaith arddangos yn llyw.cymru/cyswlltffermioeinfffermydd.

Dewisiadau eraill posibl i wella cysylltiad fyddai defnyddio pecynnau band eang lloeren trwy gefnogaeth ariannol gan 'Allwedd Band Eang Cymru' (er bod cymhwysedd yn newid ar sail y cymorth ariannol amaethyddol arall a dderbyniwyd). Yn ychwanegol, mae £10 miliwn o gefnogaeth ar gael trwy 'Gronfa Band Eang Lleol' Llywodraeth Cymru y gall eich awdurdod lleol wneud cais amdani, y mae gan lawer ohonynt swyddogion ymgysylltu band eang y gellir cysylltu â nhw i drafod pryderon am gysylltedd.



Profi gwaed yn allweddol i leihau'r lloeau marw-anedig mewn heffrod



Helpodd dynodi'r diffygion o ran elfennau hybrin trwy brofi gwaed stoc y ffermwr llaeth o Sir y Fflint, Tom Bletcher, i leihau ei gyfradd lloeau marw-anedig o 8% i 2% yn ei heffrod cyfnewid, gan arwain at arbediad sylweddol mewn costau.

Mae Tom Bletcher a'i dad Roger yn rheoli eu buches o 400 o fuchod, sy'n lloea trwy'r flwyddyn ar fferm Argoed Hall, yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint. Cofrestrwyd y fferm ar y prosiect HerdAdvance yng ngwanwyn 2019.

Fel rhan o HerdAdvance, cynhaliodd tîm y fferm eu cyfarfod cyntaf i drafod iechyd y fuches yn gyffredinol a dynodi meysydd blaenoriaeth gyda milfeddyg y fferm a Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth Iechyd Anifeiliaid yr AHDB, Ifan Owen. Mae'r fferm yn cofnodi data iechyd y gwartheg ar feddalwedd rheoli buches, gan roi data cywir i'r tîm wrth adolygu problemau ar y fferm.

Gwelwyd bod lloeau marw-anedig mewn heffrod yn peri pryder, gyda chyfartaledd o 8% y mis dros y 12 mis blaenorol, gan gyrraedd uchafbwynt ar 20% yn y mis gwaethaf.

Roedd y gyfradd uchel o loeau marw-anedig yn cael effaith ariannol sylweddol ar y fferm.

"Roeddem yn brin o heffrod cyfnewid i ddod i mewn i'r fuches, ac roeddem yn colli rhai o'r anifeiliaid â'r nodweddion genynnol gorau yr oeddem wedi buddsoddi yn drwm ynddyn nhw trwy ddefnyddio semen â'i ryw wedi ei bennu," dywedodd Tom.

Roedd colli lloeau, er bod y staff yn canolbwyntio eu sylw ar heffrod oedd yn lloea, hefyd yn cael effaith negyddol ar forâl y staff.

"Does dim byd mwy torcalonnus na chael llawer o loeau marw-anedig ar ôl yr holl waith caled wrth fagu'r heffrod" dywedodd Tom.

Trwy ddefnyddio'r gefnogaeth sydd ar gael trwy Glinig Iechyd Cyswllt Ffermio, cymerodd y milfeddyg samplau gwaed o'r heffrod cyflo. Dangosodd hyn bod yr heffrod yn dioddef o ddiffyg elfennau hybrin, seleniwm yn benodol, a all arwain at erthyly yn gynnar.

Ar ôl darganfod hyn, dechreuodd y fferm roi bolws i heffrod cyflo wrth eu troi allan, gan roi digon o elfennau hybrin iddynt nes y byddant yn geni llo. Rhoddir un bolws i heffrod dan 500kg, a rhoddir dau i rai dros 500kg. Cafodd hyn effaith gadarnhaol sylweddol dros y 12 mis diwethaf, gyda'r cyfartaledd o loeau marw-anedig yn disgyn i ddim ond 2% mewn cymhariaeth â 8% cyn hynny.

Arweiniodd gostwng y gyfradd o loeau marw-anedig at gael mwy o heffrod gyda nodweddion genynnol gwell ar y fferm, gan adael i'r tîm gyrraedd eu cyfradd gyfnewid a bod yn fwy dethol wrth wneud penderfyniadau bridio. Mae'r fferm yn awr yn neilltuo cyfran uwch o'r fuches i'r sector biff, sy'n cynnig llif incwm ychwanegol.

Cyfrifir bod cost stoc cyfnewid Argoed Hall ar gyfartaledd yn £1,231, gyda gwerth cyfnewid heffer yn £245 o'r costau hwn. Felly mae gostwng y gyfradd o loeau marw-anedig o 8% i 2% yn rhoi arbediad ar gyfartaledd o £1,470.

"Rydym yn eithriadol o falch o'r gwelliannau a wnaed. Roeddem yn gwybod bod gennym broblem ac fe wnaeth bod yn rhan o'r prosiect HerdAdvance amlygu bod lle i wella, gan ein cymell i weithredu a gweld canlyniadau gwych," dywedodd Tom.

"Dangosodd Tom beth ellir ei gyflawni trwy gael mynediad at gofnodion iechyd cywir. Wrth gael y wybodaeth honno wrth law, mae'r tîm wedi gallu gwneud penderfyniadau rheoli ar sail gwybodaeth ac maent yn parhau i fonitro'r manteision. Dywedodd Bill Gates, unwaith: 'Bydd y ffordd yr ydych yn casglu, rheoli a defnyddio gwybodaeth

yn pennu a fyddwch yn ennill neu golli', ac mae fferm Argoed Hall wedi canfod system gofnodi sy'n gweithio iddyn nhw," dywedodd Ifan.

Mae fferm Argoed Hall yn un o 500 o ffermydd a ddewiswyd gan yr AHDB i gymryd rhan yn ei brosiect HerdAdvance, sy'n anelu at helpu ffermwyr llaeth Cymru i gynyddu proffidoldeb a pherfformiad trwy ganolbwyntio ar reoli iechyd anifeiliaid yn well a rheoli afiechydon.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y prosiect HerdAdvance, ewch i'r dudalen we benodol yn ahdb.org.uk/herdadvance.



Mae HerdAdvance yn rhan o'r Rhaglen Gwella'r Sector Llaeth bum mlynedd, sydd wedi cael cyllid gan Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Datblygu Gwledig Ewrop a Llywodraeth Cymru.

Safle Ffocws: Fedw Arian Uchaf, Y Bala, Gwynedd

Swyddog Technegol: Geraint Jones

Teitl y Prosiect: Gwella gwrychoedd i ddiffinio terfynau pori cylchdro

Mae Geraint, Rachel a'r teulu yn cadw fferm ucheldir bïff a defaid organig ar gyrion y Bala. Amcan y safle ffocws yw gwella perfformiad amgylcheddol cyffredinol y fferm, gyda'r nod o wella perfformiad ariannol busnes y fferm. Mae sawl dewis yn cael eu hystyried ac un dewis yw cyflwyno system bori cylchdro newydd, flaengar gan ddefnyddio terfynau traddodiadol. Er mwyn lleihau'r baich gwaith o symud ffensys trydan yn barhaus, bydd y prosiect yn asesu'r gwrychoedd sy'n bodoli trwy gynhyrchu cynllun rheoli gwrychoedd. Bydd hyn yn dynodi ac yn blaenoriaethu'r gwrychoedd sy'n bodoli i'w hadfer a sefydlu rhai newydd i ddiffinio'r rhannau o borfa fydd eu hangen ar gyfer y fuches fagu.

Y Diweddaraf am y Prosiect:

Mae'r gwaith arolygu yn mynd yn ei flaen yn dda iawn a bydd yn cael ei gwblhau yn hwyr yn y gwanwyn a bydd y gwaith dadansoddi data yn cael ei orffen. Defnyddir y data i lunio gweledigaeth dymor hir yn unol â'r gofynion rheoli gan ganolbwyntio ar ansawdd y dŵr, cysgod, bioamrywiaeth, dal a storio carbon, bioddiogelwch a chyfraniad at nwyddau cyhoeddus ac ati. Bydd hyn yn cael ei drosglwyddo i raglen waith dros gyfnod o flynyddoedd gyda blaenoriaethau penodol, gan ddynodi cyfleoedd am gyllid i'w weithredu.


Am ragor o wybodaeth am y gwaith a gynhaliwyd ar safle ffocws Fedw Arian Uchaf ac i ddysgu rhagor am adnoddau dŵr ar gyfer y fferm, ewch i: llyw.cymru/cyswlltffermioeinfffermydd

Adnoddau dŵr:

Maes arall oedd yn cael blaenoriaeth gan Geraint oedd diogelu'r adnodd dŵr i'r anifeiliaid ar y fferm. Mae'r cyflenwad dŵr ar hyn o bryd yn dibynnu ar adnoddau naturiol, sy'n fregus pan fydd sychder; ac yn annhebygol o gefnogi lefelau stocio ychwanegol. Cynhyrchwyd Adroddiad Dichonolrwydd Dŵr trwy Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio ar gyfer Fedw Arian Uchaf. Cynhaliwyd asesiad o'r system gyflenwi bresennol a dynodwyd nifer o ddewisiadau ar gyfer ffynonellau cyflenwad dŵr ychwanegol neu wahanol, sy'n gost effeithiol a'r modd y byddent yn cael eu cyflenwi. Bydd hyn yn cynnig cyflenwad dŵr cynaliadwy a chadarn i'r fferm.



Ffigwr 1. Geraint Jones, Fedw Arian Uchaf



Beth ddylid ei ystyried wrth gynllunio i adfer a sefydlu gwrychoedd?

Geraint Jones, Swyddog Technegol Coedwigaeth - Cyswllt Ffermio

Gyda'r heriau sydd yn wynebu'r diwydiant amaeth a'r pwyslais ar wella'r amgylchedd, mae'n bwysig ystyried rôl gwrychoedd a choed a sut y gall eu manteision amlochrog gyfrannu at wella perfformiad amgylcheddol busnes y fferm, law yn llaw â chynhyrchu bwyd. Mae cysylltiad sylfaenol rhyngddynt â gwella lles anifeiliaid, bioddiogelwch, ansawdd dŵr, iechyd y pridd, bioamrywiaeth a dal a storio carbon ac yn ffactor pwysig wrth gyfrannu at nwyddau cyhoeddus, yn awr ac i'r dyfodol. Mae'n bwysig felly asesu a ydynt yn addas i'r diben a gweithio er budd busnes y fferm.

Gall ffermio ddwyn ei heriau ei hun ond gall plannu coed a gwrychoedd yn strategol a gwella'r isadeiledd gwyrdd presennol, yn ei dro, arwain at wella lles anifeiliaid a chynyddu cynhyrchiant. Mae'r fantais hon wedi bod yn ddylanwadol o ran poblogrwydd cynyddol ŵyna allan â'r amcan o leihau costau cynhyrchu.

Enghraifft arall yw defnyddio atebion trwy gyfrwng coetir a gwrychoedd i reoli dŵr. Gellir gwneud hyn ar lefel fferm a chae, ac, ar raddfa ehangach fwy buddiol, gan ffermwyr yn gweithio gyda'i gilydd trwy brosiectau ar y cyd ar lefel dalgylch. Gall lleoli isadeiledd gwyrdd yn gywir, defnyddio'r hyn sydd ar gael yn barod a sefydlu rhai newydd cadarn gyfrannau at ymdrin â llygredd gwasgaredig, gan gynnig rhwystr ac ymyrraeth, trwy gasglu a chadw maetholion a gwaddod mewn dŵr llygreddig sy'n rhedeg dros y tir yn ystod tywydd eithafol. Mae digon o dystiolaeth bod parthau clustogi coediog, lleiniau cysgodi wedi eu gosod yn strategol ac ardaloedd coetir yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd dyfrol.

Er mwyn cyflawni dull wedi ei dargedu o liniaru problemau posibl yn y tymor hwy fel ansawdd dŵr, dylai camau i wella isadeiledd coetir a gwrychoedd gael eu hystyried gyda chynghor a chyfarwyddyd rheoli tir perthnasol.

Er mwyn hwyluso hyn, gall Cyswllt Ffermio gynnig cyllid i gynhyrchu cynlluniau rheoli penodol trwy'r Gwasanaeth Cynghori trwy ddefnyddio cefnogaeth wedi ei deilwrio i fodloni eich nodau. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol neu ewch i wefan Cyswllt Ffermio ar llyw.cymru/cyswlltffermiocyngor

Perthynas dda'r cyhoedd yng Nghymru gyda ffermio yn gyrru adfywiad mewn casglu ffrwythau eich hun

Debbie Handley, Swyddog Technegol Garddwriaeth – Cyswllt Ffermio

Daeth yr hyder yn ôl i sector casglu ffrwythau Cymru, gyda chyfryngau cymdeithasol ac atyniad natur yn hybu'r twf, ac mae ffermwyr mewn lle da i fanteisio ar y galw sydd wedi crynhoi am brofiadau yn yr awyr agored.

Mae gan Cyswllt Ffermio ddau brosiect safle ffocws newydd yn cael eu datblygu eleni, y ddau yn edrych ar arallgyfeirio i'r sector casglu eich hun.

Mae fferm Cae Derw ger Rhuthun yn cadw diadell o ddefaid ac yn ddiweddar maent wedi penderfynu cymryd darn bach o dir gerllaw. Ar y darn hwn sydd wrth ochr y ffordd byddant yn tyfu ffrwythau, llysiau, cnydau salad a blodau, a bydd yn cynnwys blodau a phwmpenni casglu eich hun. Bydd cynnyrch yn cael ei werthu yn uniongyrchol i'r gymuned leol trwy gasgliadau



Ffigwr 1. Safle Cae Derw

blwch llysiau, y siop leol, y cigydd a'r swyddfa bost.

Dywedodd yr arbenigwr garddwriaeth Chris Creed bod nifer o enghreifftiau o fentrau casglu eich hun llwyddiannus trwy Gymru, o dyfwyr ffrwythau meddal a blodau i ardaloedd tyfu pwmpenni ar raddfa fawr.

"Ddeng mlynedd yn ôl, roeddem yn meddwl bod casglu eich hun traddodiadol yn farw hoel, ond mae'n awr yn ffurf boblogaidd iawn o dwristiaeth fferm," dywedodd wrth bobl oedd yn gwrandao ar weminar Cyswllt Ffermio yn ddiweddar.

"Mae gan bobl berthynas dda ag amaethyddiaeth, maent yn hoffi cael diwrnod ar y fferm. Mae'n ymwneud â'r profiad ar y fferm, ac felly nid yw o angenrheidrwydd yn ymwneud â chynhyrchu."

Er enghraifft, gall tyfu pwmpenni ar gyfer Calan Gaeaf fod yn ffynhonnell incwm fuddiol iawn. Gall pwmpenni gael eu rheoli yn rhwydd iawn ochr yn ochr â gweithgareddau ffermio arferol ac mae'r gofynion llafur ychwanegol yn eithaf cyfyngedig, gydag aelodau iau o'r teulu yn gallu helpu dros y cyfnod casglu eich hun ar hanner tymor.

Mae'n fantais bod yn hyddysg yn y cyfryngau cymdeithasol hefyd i hyrwyddo'r fenter ac i roi gwybodaeth am oriau agor a phryd mae'r cynnyrch ar gael, ac yng Nghymru mae hyfforddiant ar gael trwy Cyswllt Ffermio.

Gardd furiog Fictoraidd yw Gardd Gegin Mostyn yn Sir y Fflint. Mae'r safle'n ychwanegu gwerth at ei gynnyrch trwy gynhyrchu amrywiaeth o jamiau, ac eleni bydd hefyd yn ceisio sefydlu menter casglu pwmpenni ochr yn ochr â'r gweithgareddau tyfu sy'n bodoli'n barod. Bydd gwahodd y cyhoedd i'r safle yn helpu i lunio perthynas well gyda'r gymuned leol a rhoi hwb i werthiant y jamiau.

Nid yw pris y cynnyrch yn broblem os mai'r profiad o ymweld â'r fferm yw'r prif atyniad, a rhaid i ffermwyr beidio â thanbrizio potensial fferm arferol yn y cyswllt hwn. Gall creu drysfa mewn india corn neu dyfu cae o flodau'r haul fel rhywle i dynnu llun yn syml iawn gynnig ymweliad gwerth chweil â chefn gwlad.

"Gall teuluoedd wario £200 ar ddiwrnod allan mewn parc thema, felly mae gwario £20 am brofiad ar y fferm yn cynnig gwerth da am arian" awgrymodd Mr Creed. Bydd cynnig te, coffi a chacen a gellir eu gweini o hen gynhwysydd llong gyda phabell dros dro a byrddau picnic i'w groeswu.

Cynghorodd Mr Creed y ffermwyr i gynllunio'n ofalus cyn buddsoddi'n helaeth.

Mae tyfu mewn twnel yn golygu buddsoddiad o £150,000/hectar a bydd angen caniatâd cynllunio ond gall gynnig elw yn gyflym - gallant gael eu codi ym mis Mawrth a bydd y ffrwythau'n cael eu cynaeafu dri mis yn ddiweddarach.

"Gallwch ddangos elw erbyn yr ail flwyddyn, hyd yn oed ar ôl buddsoddi ar y lefel hon," dywedodd Mr Creed.

"Bydd ffermwyr da byw yn aml yn cael trafferth wrth ofalu am blanhigion ond mae llawer o ffynonellau i gael cyngor yng Nghymru a all helpu gydag agronomeg a rheoli plâu ac afiechydon," dywedodd Mr Creed.

Mae ardaloedd tyfu pwmpenni a blodau haul yn "enillion hawdd", awgrymodd Mr Creed, gan mai ychydig iawn o fuddsoddiad sy'n angenrheidiol. "Mae blodau haul yn costio £100/hectar o ran costau hadau a gallwch godi pris ar bobl am fynd i'r cae i dynnu llun, a gallwch yn hawdd dyfu 2,000 o bwmpenni ar bob erw."

Am ragor o wybodaeth am y gwaith a wnaed ar safle ffocws Cae Derw, ewch i:

llyw.cymru/cyswlltffermioeinfffermydd

Mae gan Bartneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru hefyd rai prosiectau a all fod o ddiddordeb i ddarpar arddwyr gan gynnwys rheoli plâu mewn mentrau ffrwythau meddal a gofynion pwmpenni o ran maeth. Gellir gweld rhagor o fanylion ar wefan Cyswllt Ffermio yn llyw.cymru/cyswlltffermio

RHOWCH GYCHWYN DA I LOEAU – disgwylwch ddeiliant gwell

Mae ar loeau buchod godro angen ‘cychwyn da’ mewn bywyd. Heb gael colostrwm yn yr ychydig oriau cyntaf o’u hoes a chael eu rheoli yn dda yn gynnar, mae gan loeau lai o imiwnedd rhag heintiad ac efallai na fyddant fyth yn cau’r bwlch o ran iechyd a chynhyrchiant.

**Dysgwch sut i roi’r gofal cywir i stoc ifanc i leihau’r angen am wrthfotigau drud a’r risg o fagu ymwrthedd gwrthficrobaidd.
Y canlyniad? Gallwch ddisgwyl gwell deilliannau a gwell elw!**

Lansiodd Cyswllt Ffermio weithdy hyfforddi wedi ei ariannu’n llawn, ‘**Magu lloeau iach a sicrhau’r elw mwyaf**’ sydd wedi ei dargedu at ffermwyr llaeth. Gall ffermwyr cymwys sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio naill ai gofrestru ar gyfer gweminar ddwy awr ar-lein neu wneud cais i ymuno â gweithdy grŵp teirawr wyneb yn wyneb pan fydd y cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu hynny.



Wedi ei gyflwyno gan filfeddygon y ffermydd sy’n cymryd rhan, bydd y ddau fath o hyfforddiant yn archwilio bob cam o fagu lloeau, o’u geni hyd eu diddyfnu, gan ddynodi meysydd allweddol lle gellir cymryd camau i wella iechyd y llo, cynyddu cynhyrchiant a sicrhau’r elw mwyaf.

Dywed Rebecca Summons, sy’n arwain ar ddarparu iechyd anifeiliaid a hyfforddiant ar ran Cyswllt Ffermio, ei bod yn hanfodol i ffermwyr gynyddu hyder y defnyddwyr mewn llaeth a chynhyrch llaeth, trwy weithredu arfer gorau a chadw at y safonau uchaf o ran iechyd a lles anifeiliaid y mae defnyddwyr yn eu mynnu heddiw.

“Bydd y cwrs hyfforddi newydd hwn yn rhoi’r newyddion diweddaraf i’r ffermwyr llaeth am y Strategaeth Lloeau Diwydiant Llaeth 2020-2023 trwy Brydain a bydd yn trafod symud lloeau o fuchesi gyda chyfyngiadau TB yn ogystal â chynnig cyngor ar economeg magu lloeau teirw.


Lawrlwythwch Strategaeth Lloeau’r Diwydiant Llaeth 2020-2023 yn ahdb.org.uk/GB-calf-strategy

“Bydd hefyd yn trafod cynllunio iechyd, bioddiogelwch a defnyddio gwrthfotigau, gan gynnig cyfle i ffermwyr llaeth gael cyfarwyddyd gan yr arbenigwyr; i fynegi unrhyw gwestiynau sydd ganddynt ac i ddysgu o brofiad ffermwyr llaeth eraill sy’n cymryd rhan,” meddai Ms Summons.

Darparwyd cynnwys y cwrs hyfforddiant gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Afiechydon Anifeiliaid Cenedlaethol (NADIS), fe’i cymeradwywyd gan Lantra ac mae’n cyd-fynd â blaenoriaethau iechyd a Lles Anifeiliaid Llywodraeth Cymru.

Bydd yr holl gyfranogwyr yn cael tystysgrif ‘presenoldeb o bell’ a fydd yn cael ei hychwanegu ar eu rhan at eu cofnod Storfa Sgiliau Cyswllt Ffermio.

Am ragor o wybodaeth ac i archebu lle ewch i llyw.cymru/cyswlltffermio



Cydnabyddiaeth: <https://www.teagasc.ie/media/website/publications/2017/Section1-The-Newborn-Calf.pdf>

Rheoliadau llygredd amaethyddol

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi cyhoeddi Rheoliadau i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol yng Nghymru. Bydd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021 ar gyfer gofynion cychwynnol gyda chynodau pontio i gyflwyno gweddill y gofynion dros gyfnod o dair blynedd a hanner.

Mae llygredd amaethyddol yn cael effaith niweidiol ar amgylchedd Cymru ac oherwydd hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rheoliadau sy'n berthnasol i Gymru gyfan. Nid yw tystiolaeth o arferion gwael ac achosion llygredd wedi'u cyfyngu i un ardal neu fath o fferm. Mae'r rheoliadau'n gymesur, gan ganolbwyntio ar y ffermydd hynny lle mae'r risg amgylcheddol o reolaeth slyri a maetholion gwael ar ei uchaf, gyda ffermwyr sydd eisoes yn gweithredu yn ôl y safonau a argymhellir yn gweld llai o effaith ar eu harferion.

Beth sydd wedi'i gyhoeddi?

Bydd mesurau rheoleiddio i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol yn cael eu cyflwyno a byddant yn berthnasol i bob fferm ledled Cymru.

Yn gryno, mae'r rheoliadau'n cynnwys y gofynion canlynol:

- Cynllunio rheoli maetholion;
- Taenu gwrtaith cynaliadwy sy'n gysylltiedig â gofynion y cnwd;
- Diogelu dŵr rhag llygredd sy'n gysylltiedig â phryd, ble a sut mae gwrtaith yn cael ei daenu; a
- Safonau storio tail a silwair

Bydd yr eithriad SAFFO cyn 1991 ar gyfer safonau adeiladu storfeydd yn aros yn ei le ac, ar yr amod bod ffermydd yn cwrdd â gofynion y cyfnod storio, efallai na fydd angen adeiladu storfa newydd.

Pryd fydd y rheoliadau'n berthnasol?

- Bydd y mesurau'n cael eu cyflwyno'n raddol dros y tair blynedd a hanner nesaf. Bydd mesurau cychwynnol yn berthnasol i ffermydd o 1 Ebrill 2021 gyda'r mesurau sy'n weddill yn cael eu cyflwyno o 1 Ionawr 2023 ac o 1 Awst 2024.
- Mae'r mesurau cychwynnol yn gysylltiedig ag arfer gorau, gyda mwy o amser yn cael ei ddarparu ar gyfer cyflwyno'r mesurau hynny a allai, i rai, ofyn am newid mwy sylweddol.
- Bydd y dull cyflwyno graddol yn rhoi amser i ffermwyr ddod i ddeall y gofynion ac i dderbyn cynghor cyn i'r rheolau fod yn berthnasol.
- Bydd gofynion y rheoliadau newydd yn cael eu cynnwys o fewn Trawsgydymffurfiaeth ond dim ond o'r dyddiad y maent yn berthnasol gyntaf.
- Ffermydd o fewn Parthau Perygl Nitradau (NVZ) presennol. Bydd y rheoliadau newydd yn disodli'r rheoliadau NVZ presennol ond prin fydd y newidiadau i'r gofynion a'r arferion. Yn gyffredinol, ni fydd y cynodau pontio yn berthnasol i ffermydd o fewn NVZau. Darperir gwybodaeth bellach yn y dogfennau canllaw.

Arweiniad a Chefnogaeth

- Bydd ystod o gynghor a hyfforddiant ar gael trwy Cyswllt Ffermio yn ystod y cyfnodau pontio gan edrych yn fanwl ar wahanol agweddau o'r rheoliadau.
- Cyhoeddir dogfennau canllaw manwl ar wefan Llywodraeth Cymru gan ddarparu dull cam wrth gam o weithredu'r Rheoliadau. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf ar y tudalennau canlynol:

llyw.cymru/rheoli-tir

- Lanswyd cynllun Grant Busnes Fferm newydd - Gorchuddion lard (FBG-YC) yn ddiweddar i gefnogi busnesau fferm i wella rheolaeth maetholion ac ansawdd dŵr trwy wahanu dŵr glaw a slyri. Daeth y ffenest Datganiad o Ddiddordeb gyntaf i ben ar 18 Rhagfyr 2020 ac mae contractau werth £1.5m wedi'u cyhoeddi.
- Bydd ail ffenest o FBG-YC gyda £2.0m arall ar gael i ffermwyr yn agor ar 18 Mai 2021.



E-DDYSGU

Am wneud y mwyaf o'ch adnodd glaswellt, lleihau gwastraff a gwella perfformiad y stoc?

Am wella iechyd eich pridd, defnyddio ffynonellau ar y fferm yn effeithlon a lleihau costau cynhyrchu?

Sut gall technoleg newydd mewn amaethyddiaeth helpu gyda'r raddfa chwalu?

Dilynwch un neu fwy o'r modylau e-ddysgu canlynol yn gyfforddus yn eich cartref eich hun, ar amser sy'n gyfleus i chi:

- Rheoli Maetholion Fferm
- Compostio ar y Fferm
- Rhywogaethau Glaswelltir
- Rheoli Pori
- Systemau Pori
- Gwella Iechyd Pridd
- Technoleg Fanwl Gywir mewn Amaethyddiaeth
- Lleihau Llygredd Amaethyddol
- Rheoli Slyri
- Rheoli Chwyn

Profwch eich gwybodaeth ac asesu beth yr ydych wedi'i ddysgu trwy gwis byr aml-ddewis. Am ragor o wybodaeth am y modylau a sut i gael mynediad at e-ddysgu, ewch i wefan Cyswllt Ffermio - llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant

**PARTNERIAETH
DIOGELWCH
FFERM CYMRU**
//////////
**WALES
FARM SAFETY
PARTNERSHIP**

Cerbydau aml dirwedd (ATV) eistedd arno

Gall troi cerbyd pob tirwedd achosi marwolaeth neu anafiadau difrifol

HYFFORDDIANT:

Mae'n rhaid i bob defnyddiwr fod yn gymwys ac wedi derbyn hyfforddiant

HELMEDAU:

Gwisgwch helmed bob amser

TEITHWYR:

Peidiwch byth â chario teithwyr

PLANT:

Caiff plant dan 13 oed eu gwahardd rhag defnyddio cerbydau aml-dirwedd (ATV) yn y gweithle. Dylai plant dros 13 oed ond defnyddio cerbydau ATV - o faint a phŵer addas - ar ôl hyfforddiant ffurfiol ar gerbyd ATV pŵer isel

DIOGELWCH:

Sicrhewch eich bod yn cynnal a chadw a gwirio diogelwch y cerbyd yn rheolaidd

LLWYTHI DIOGEL:

Sicrhewch fod pob llwyth yn ddiogel ac yn gytbwys

CADWCH AT Y LLWYBRAU A GYNLLUNIWYD:

Peidiwch â chymryd risg ar dir anwastad neu lethrau



A ydych am wella eich sgiliau taenlen Microsoft Excel?

Dysgwch pa mor hawdd yw gosod a mewnbynnu data i daenlen Microsoft Excel neu 'lyfr gwaith' i gadw'r wybodaeth sydd arnoch ei hangen.

Os ydych wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio, pam na wnewch chi gais am y cwrs hyfforddiant tair awr wedi ei ariannu'n llawn ar Microsoft Excel, ar amser a dyddiad o'ch dewis chi?

Gallwn ni eich helpu i benderfynu pa lefel o hyfforddiant sydd arnoch ei angen neu gallwch gofrestru am y ddau:

- Sgiliau Sylfaenol Microsoft Excel – i ddechreuwyr llwyr
- Sgiliau Microsoft Excel Canolradd – i'r rhai sydd eisoes yn deall yr elfennau sylfaenol

Dysgwch sut i ddefnyddio Microsoft Excel a'r offer mae'n eu cynnig i'ch helpu i gadw cofnodion yn gyflym a chywir. Gall yr enghreifftiau gynnwys...

✓ Rheolaeth busnes ac ariannol

Cofnodion TAW

Cofnodion treth

Incwm a gwariant

Cronfeydd data cysylltiadau

✓ Rheoli iechyd anifeiliaid

Data buches a diadell

Cofnodion manylion unigol anifeiliaid

Cofnodion symud anifeiliaid

Cofnodion iechyd fel rhoi meddyginiaethau/trefniadau porthi/cyfraddau cynhyrchiant

✓ Rheoli tir

Mesur a chofnodi data tir ac amgylcheddol

Cofnodion profi pridd

Mewnbynnau gwrtaith/lefelau tyfiant glaswelltir

Cofnodion coedwigaeth a choetir



Am ragor o wybodaeth neu i gofrestru eich diddordeb, ffoniwch Ganolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813** neu ewch i **llyw.cymru/cyswlltffermio**